



Ein Treftadaeth  
Our Heritage

# Chwareli a Mwynfeydd



*Glanfa Porth Ysgo*

## Chwareli a Mwynfeydd Llŷn

**Rhaid mynd yn ôl bum i chwe mil o flynyddoedd i'r cyfnod Neolithig pan i ganfod y gweithgaredd diwydiannol cynharaf mae gennym dystiolaeth ohono a hynny yn Ffatri Fwyell Cerrig Mynydd y Rhiw.**

Cafodd manganis ei ddarganfod yn gynnar yn y 19egG, ei gloddio yn Nant y Gadwen, Y Rhiw a'i allforio o Borth Ysgo ac o Benallt, ger Clip y Gylfinir a'i gario trosodd efo rhaffordd awyr i'w allforio o Borth Neigwl. Bu galw mawr am fangais yn ystod y ddau Ryfel Byd ond daeth y gwaith i ben yn 1945.

lasbis gâi ei gloddio ar Fynydd Carreg, ger Porthorion ac yn Llanllawen, Uwchmynydd.

Ar draeth Aberdaron, ym Mhorth Simdde mae gweddillion glanfa. Cafodd ei chodi yn niwedd 19egG i allforio 'barytes' (grisial trwm), y mwyn o Waith Pompren yn nechrau'r 20edG. Chafodd mo'r lanfa ei defnyddio, yn ôl y sôn.

Fe ddywed traddodiad y bu'r Rhufeiniaid yn cloddio am blwm ar Benrhyn Du ym mhlwyf Llanengan, ond o ganol y 17egG mae tystiolaeth bendant i hynny ddiwydd. Cafodd Copr ei gloddio ym Mhant Gwyn am gyfnod byr a phlwm ar Benrhyn Du a throsodd i gyfeiriad pentref Llanengan. Câi 240 o fwynwyr yn y 19egG eu cyflogi, y mwyafrif o Gernyw.

Daeth galw mawr am sets i balmantu strydoedd dinasoedd Lloegr a daeth hynny a gwaith i ddynion ardal Nefyn a'r Eifl. Deuai'r ithfaen o greigiau ignaidd Llŷn ac roedd y chwareli mwyaf yn yr Eifl a Mynydd Nefyn. Cafodd Gwaith Trwyn Dwmi ei agor ym Mhorth y Pistyll, Uwchmynydd, ac roedd chwareli ar Fynydd Tir y Cwmwd, Llanbedrog ac ar Garreg yr Imbyll ym Mhwllheli. Ond nid ithfaen yn unig geir yn Llŷn.

Ond bu'r cloddio mwyaf annisgwyl yn ardal Rhoshirwaun a Llangwnnadr pan aed ati i godi glo yno ddiwedd y 19egG.




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





## Gwaith Iasbis Carreg (SH 158291)



**Cyfarwyddiadau: Parciwch ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Carreg (ger Mynydd Carreg) (SH 16262900) oddi ar ffordd yr arfordir o Langwinnadl i Aberdaron.**

Ychydig iawn o wybodaeth sydd am y chwarelydda yma ond mae'r olion yn amlwg ar yr arfordir rhwng Porthor (SH 16682996) a Phorth Orion (SH15602880).

Ar odre Mynydd Carreg (SH 16102905), ger Porthorion bu cryn gloddio yn gynnar 20fedG. Yn ôl y sôn yn 1904 y cafodd y chwarel ei hagor. Roedd Iasbis yn fwyn gwerthfawr a'r pryd hynny roedd darn dwy fodfedd giwb ohono'n werth £60. Câi ei ddefnyddio i ychwanegu at wychder adeiladau dinasoedd mawrion, megis Cadeirlan Westminster a Phalas St James yn Llundain.

Rhyw 1km oddi yno mae Pont Nant y Widdan ac wrth fynd â darn anferth o iasbis drosti dymchwelodd y bont. Ai llun o'r llwyth hwnnw gafodd ei dynnu wedi iddo gyrraedd Pwllheli ar wagan yn cael ei thynnu gan dracson. Ar ei ffordd i'r orsaf drên mae'n siŵr.

Yng nghyffiniau fferm Llanllawen Fawr (SH 14682594), Uwchmynydd mae ychydig o olion cloddio am iasbis ond does dim manylion ar gael.

## Gwaith Trwyn Dwmi (SH 163251)



**Cyfarwyddiadau: Dilynwch Lwybr Arfordir Cymru o Aberdaron tua'r de-orllewin a thrwy Borth Meudwy (SH16302250) ac uwchben Porth y Gloch (SH 16302507) ac at Graig Cwlwm (SH 16202490). Y nesaf yw Porth Pistyll (SH 16092464)**

Mae'r olion i'w gweld yn glir yn ystod y fordaith i Ynys Enlli.

Chwarel ar allt serth y môr ym Mhorth Pistyll ydi Gwaith Trwyn Dwmi. Cafodd ei hagor yn 1907 ond roedd yn anodd iawn i'r chwarelwyr fynd i'w gwaith a bu'n rhaid gosod ysgolion i hwyluso'r daith.

Câi sets 4", 6" ac 8" eu cynhyrchu yma a cherrig ymylon palmentydd.

Yn 1908 cafodd chwarel ei hagor yng Nghraig y Cwlwm hefyd ac mae olion o'r cei ar gyfer allforio i'w gweld o hyd. Cafodd clymbost ei naddu o'r graig naturiol, ond byddai clirio graean o thywod o'r cei i ddod â llongau i mewn yn drafferthus. Roedd y cei hefyd yn rhy isel a byddai'r môr yn gochi drosto'n aml, felly roedd ei gynnal a'i gadw'n gostus.

Roedd peiriant ar ben yr allt i gario cerrig a nwyddau i fyny ar i lawr o lefel y môr, 35m islaw.

Roedd cynlluniau uchelgeisiol i godi capel, siop a thai ond dim ond un tŷ gafodd ei godi, sef Môr Awelon neu Bynglo Jackson – wedi'i enwi ar ôl y Rheolwr.

Yn Rhagfyr collodd, Robert Evans, Dynfra, un o'r chwarelwyr, ei fywyd. Cafodd ei fab Griffith ddihangfa gyfyng.



Wedi cyfnod o fod ar gau cafodd ei hailagor yn y 1930au gyda 45 yn gweithio yno. Ond erbyn 1937/8 roedd wedi cau yn derfynol ac ni lwyddon nhw i werthu'r sets o gwbl yn y cyfnod hwn. Pan wnaed archwiliad yn 1940 roedd o leiaf 600 o sets a llwyth trol o gerrig cerbio wedi'u gadael yno.

## Gwaith Manganis y Rhiw



### Cyfarwyddiadau:

**Gwaith Nant y Gadwen (SH 210266)** Dilynwch ffordd yr arfordir o'r Rhiw tuag at Aberdaron a throï i'r chwith am Lanfaelrhys. Parciwch ger fferm Ysgo (SH 20742680) a cherdded Llwybr Arfordir Cymru tua'r de/ddwyrain.

**Neu:** Wedi cyrraedd y dyffryn cerddwch y llwybr tuag at Borth Ysgo. Mae'r ceudyllau i'w gweld o bobtu ac mae olion peiriannau ar y chwith.

**Gwaith y Benallt (SH 222280).** Olion i'w gweld oddi ar y ffordd sy'n arwain o'r Rhiw - ar ochr Mynydd y Rhiw o dan Clip Gylfinir a gyferbyn â chapel Pisgah.

Gwnaed ymchwiliadau ar ran Sgweiar Nanhoron yn 1827 yn cadarnhau mai manganis oedd y mwyn yn Nant y Gadwen. Bu cloddio ysbeidiol yma ac acw yn Y Rhiw rhwng 1858 a dechrau'r 20fedG.

Yn gyntaf câi'r manganis ei ddefnyddio i gynhyrchu paent a gwydr ond daeth y galw mawr amdano yng nghyfnod y ddau Ryfel Byd i galedu dur. Pan oedd y cloddio yn ei fri câi 90% o fanganis gwledydd Prydain ei gynhyrchu yma gan gyflogi rhyw 200 o weithwyr.

Wedi ailgychwyn cloddio yn 1903 sylweddolion nhw mor anhwylyd oedd ei gario ar gefn mulod i'w lwytho ar longau ym Mhorth Cadlan. Doedd ei gario i gwrdd â'r trê'n ym Mhwlheli neu at longau yn Abersoch a Phorthdinllaen ddim yn hwylus felly codi pier ym Mhorth Ysgo (SH 20752650) oedd yr ateb a gosod rheiliau i lawr ato.

Wedi agor y mwynfeydd yn Benallt (SH 22202800) y cafodd pier yn Garth (SH 239279) ym Mhorth Neigwl ei godi. Byddent yn cario'r manganis yno efo rhaffordd dros bentref y Rhiw. Ond yn stormydd gaeaf 1910-11 cafodd glanfa'r Garth ei dinistrio. Wedyn bu'n rhaid cario'r manganis ar gledrau i Borth Ysgo er mwyn ei allforio i Ellesmere Port ar gyfer gweithfeydd dur Brymbo.

Wrth ddefnyddio lampau cerbeid roedd yr amgylchiadau gweithio'n afiach iawn. Lleihaodd y galw am fanganis a chau fu hanes y mwynfeydd yn 1945.

## Gwaith y Bompren, Aberdaron (SH 167264)



'Barytes' (grisial trwm) oedd ym mwynfeydd Gwaith y Bompren yng ngelltydd y môr

y Mhorth Simdde – pen gorllewinol traeth Aberdaron.

Câi ei ddefnyddio yn y broses o gynhyrchu paent a phapur.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y mwynglawdd hwn. Mae llythyrau gan unigolion yn 1837 yn gofyn i'r Arglwydd Newborough am ganiatâd i weithio mwynfeydd 'barytes' yn Aberdaron.

Mae cofnod iddo fod dan berchnogaeth Evan J Evans, Aberystwyth yn 1908 a bod dau bwll o dan ddaear ac un uwchben yn gweithio. Cafodd ei weithio am gyfnod o leiaf yn 1914.

Ym Mhorth Simdde (SH 16752630) mae gweddillion y lanfa er y dywedir na chafodd ei defnyddio o gwbl.



Ein Treftadaeth  
Our Heritage

# Chwareli a Mwynfeydd parhad



## Cloddio Glo (SH 200303)



*Tystysgrif y Cwmni Glo*

Cafodd glo ei ddarganfod yn ardal Hebron, Llangwnnadr ac yn Rhosirwaun yn y 19egG ac aed ati i archwilio. Yn 1837 ar dir Brynhunog Fawr ac yn Rhos Cabli yn 1844 cafodd ei gloddio.

Roedd digon o hyder yn y fenter i sefydlu cwmni, sef 'The Rhoshirwaun Coal & Mining Company' a gwerthu cyfrandaliadau. Mae enw'r cwmni yn awgrymu eu bod hefyd yn gobeithio darganfod mwynau eraill yn yr ardal.

Does dim gwybodaeth pa mor llwyddiannus fu'r cloddio. Ond mae dogfen dyddiedig 11 Rhagfyr 1888 ar gael yn gwahodd buddsoddiadau. Mae hyn felly yn awgrymu y bu'n weithredol am rai degawdau.

Bu'r cloddio yn Rhoshirwaun (SH 19602970) mewn cae a elwir yn 'Cleimant', un o nifer o leiniau sy'n ymestyn yn ôl o res o dai ar yn B4413. Ai o'r gair Saesneg am 'hawlio' y daeth yr enw mewn perthynas â'r cloddio neu ydi o'n ymwneud â chau tiroedd comin Rhoshirwaun yn 1801?



## Dilynwch y Stori...

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol yr ardal drwy ymweld â Mynydd y Rhiw – Unwaith yn lleoliad i ffatri 'bwyell' Neolithig.